

Tystiolaeth UCAC i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad ar Ariannu Addysg Ôl-16

Ionawr 2010

1. **Rhagarweiniad**

    1. Mae UCAC yn croesawu'r cyfle i gyflwyno Tystiolaeth i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad ar ariannu addysg ôl- 16.

    2. Mae llawer o son wedi bod am gyllidebau addysg yn ddiweddar a sawl ymchwiliad, hefyd i wahanol agweddau. Yn ôl y Cyn Weinidog Plant Addysg Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, "*Yn yr hinsawdd sydd ohoni, mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio ein cyllideb yn effeithiol, yn effeithlon ac yn arloesol, er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus. Dyma'r gwasanaethau y mae pobl ledled Cymru, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed a'r lleiaf breintiedig, yn dibynnu arnynt.*" Pwysleisiodd yr angen i ganolbwyntio ar "*leihau costau a sicrhau gwell gwerth am ein buddsoddiad yn hytrach na lleihau gwasanaethau.*

    3. Mae UCAC yn cytuno a'r gosodiadau uchod ac yn ymwybodol iawn bod ysgolion a cholegau wedi gwneud arbedion ers rhai blynyddoedd a'u bod yn mynd i'w chael yn anodd iawn i arbed rhagor o arian yn 2010-2011. Meant hefyd wed bod yn cyd-weithio'n effeithiol ac yn darganfod ffyrdd arloesol o ddarparu addysg i'w myfyrwyr.

    4. Credwn nad yw'r arian a ddyrennir gan y System Gynllunio Ac Ariannu Genedlaethol (NPFS) yn ddigonol i ariannu gwir gost darparu addysg ol-16 yn yr 21 ganrif. Nid oes ystyriaeth / cydnabyddiaeth o gostau cynyddol darparu addysg.

    5. Mae UCAC yn cefnogi'r egwyddor o fethodoleg ariannu genedlaethol. Dylai fod tegwch ar gyfer myfyrwyr ledled Cymru a'r un cyfleoedd ar eu cyfer. Dyma'r meddylfryd tu cefn i'r Mesur Dysgu a Sgiliau. Mae'r Mesur yn diogelu hawliau cyfreithiol i ddisgyblion o ran isafswm dewis cyrsiau ar draws meysydd arbennig gan gynnwys cyrsiau mwy galwedigaethol. Yn anffodus wrth i'r gyfraith newid nid oes newid cyfatebol i'r SGAC / NPFS byddai'n sicrhau bod y lefel o ddarpariaeth yn gynaliadwy.

    6. Credwn nad oes digon o ymchwil wedi'i gynnal i gostau darparu cwricwlwm ehangach. Yn bendant nid oes digon o drafodaeth gyda rhanddeiliaid am y SGAG / NPFS a'i effeithiolrwydd ar adeg arloesol ym myd addysg. Mae angen sicrhau bod pobl sydd yn deall yr oblygiadau ar lawr y dosbarth yn cael mewnbwn i drafodaethau. Mae angen sicrhau hefyd bod lleisiau o wahanol ardaloedd yng Nghymru yn cael gwrandawiad er mwyn adlewyrchu amrywiaethau economaidd, daearyddol ac ieithyddol.

7. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gyrru'r agenda cyd-weithio, sydd wedi arwain at ddatblygiadau diddorol a dewisiadau ehangach i ddisgyblion. Serch hynny, mae angen cydnabod y costau sydd ynghlwm â chyd-weithio a bod adegau pan fyddai buddsoddi mewn darpariaeth fewnol mewn rhai meysydd ychwanegol yn dod a mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr, yn y pendraw. Mae angen ystyried y cydbwysedd rhwng darparu'n fewnol a darparu'n allanol a phwyso a mesur y costau, y manteision a'r anfanteision.

8. Mae sicrhau gwariant teg a digonol ar addysg yn hanfodol bob amser ac mae'n hanfodol bwysig i sicrhau nad yw addysg yn faes sydd yn cael ei esgeuluso ar adeg o galedi economaidd. Mae'r sectorau ôl-16 ac addysg uwch yn paratoi pobl ifainc at eu gyrfa ac yn creu gweithlu'r dyfodol – ym mhob maes.

9. Mae'n hynod bwysig, felly, i sicrhau bod modd darparu'n ddigonol ar gyfer addysg 16-19 ac addysg uwch. Bydd rhai o'n pobl ifainc yn cael eu denu i adael addysg ffurfiol ar ddiwedd cyfnod addysg gorfodol i chwilio am swydd. Os gallwn eu cadw yn y gyfundrefn addysg a datblygu eu sgiliau ymhellach mae'n fwy tebygol byddwn yn diogelu dyfodol iddynt pan ddaw Cymru allan o'r cyfnod economaidd gwael hwn.

10. Mewn gwirionedd mewn rhai ardaloedd mae niferoedd uwch o fyfyrwyr 16 - 19 oed wedi dychwelyd i'r system addysg (naill ai i ysgolion neu i golegau addysg bellach) yn dilyn eu harholiadau TGAU yn y blynyddoedd diwethaf.

11. Mae UCAC yn deall pwysigrwydd cefnogi pobl ifainc (16-25 oed) sydd yn ddi-waith a darparu ar eu cyfer ac mae'n bwysig sicrhau bod modd i'n sefydliadau addysg ddenu pobl ifainc nôl i ddatblygu eu sgiliau. Hoffwn wybod beth yw'r cynlluniau ar gyfer gwariant y£20.5m ar bobl ifainc di-waith.

12. Mae Llywodraeth Cymru wedi son am arbedion effeithlonrwydd (efficiency gains) o 5% ar gyfer ein sefydliadau addysgol ni. Cred UCAC nad yw hyn yn realistig. Mae ysgolion a cholegau wedi bod yn arbed arian ers nifer o flynyddoedd ac mae'n amhosib gwneud arbedion pellach. Dyma'r neges sydd yn dod yn glir wrth ein Penaethiaid. Mae hefyd yn hollol afresymol i ddisgwyl i sefydliadau addysgol wneud arbedion o 5% pan ddisgwylir i eraill wneud arbedion llai, e.e.1.6%.

13. O hyn mlaen does dim arian i ddatblygu pethau - mae perygl i gynlluniau sefyll yn stond; a hynny ar adeg pan mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno newidiadau pellach. Mae'n annheg disgwyl i ysgolion a cholegau wneud arbedion wrth ddarparu mwy o gyrsiau a mwy o wasanaethau. Ateb

Llywodraeth Cymru yw y dylai hyn fod yn bosib trwy ddarparu ar y cyd gyda sefydliadau eraill - ond mae yna gostau cudd i ddarparu ar y cyd ac nid yw cyd-weithio bob amser yn gost niwtral nac yn arbed arian - yn aml mae costau ychwanegol.

2. Cyhoeddi gwybodaeth am ariannu

1. Y System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol (NPFS) sydd yn darparu arian ar gyfer addysg ol-16 (16-19 mewn ysgolion a cholegau addysg bellach, dysgu yn gweithle a dysgu yn y gymuned).

2. Mae'r arian ar gyfer ysgolion yn mynd i'r AALl ac mae'r wybodaeth am y swm yn cyrraedd yr ysgolion tua diwedd Ionawr, dechrau Chwefror – ac yn hwyrach na hynny mewn rhai ymgylchiadau. Mae blwyddyn ariannol ysgolion (yn wahonol i flwyddyn ariannol colegau addysg bellach) yn mynd o 1 Ebrill i 31 Mawrth. Golyga hyn nad oes llawer o amser gan sefydliadau i wneud penderfyniadau pwysig am wariant yr arian, e.e. os oes angen cyflogi rhywun o'r newydd neu ddiswyddo rhywun mae angen amser ar y prosesau hyn. Petai ddiffyg arian ar gyfer cyflawni holl waith y sefydliad ac felly angen diswyddo aelod(au) o staff, mae rhaid i lywodraethwyr ymateb bron yn syth - mae angen dechrau'r broses diswyddo yn Chwefror er mwyn gallu mynd trwyddi cyn dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf.

3. Byddai derbyn gwybodaeth yn gynt yn rhywfaint o gymorth o ran cynllunio. Mae'r ffaith bod gwybodaeth yn cyrraedd yn hwyr yn effeithio ar effeithlonrwydd ac yn dodi sefydliadau ac unigolion dan dipyn o straen.

4. Mae derbyn gwybodaeth yn flynyddol, hefyd, yn gallu cymhlethu pethau a'i gwneud yn anodd cynllunio ar gyfer datblygiadau o fewn y sefydliad - ac anodd diogelu cyrsiau dwy flynedd ar gyfer rhai sydd yn eu cychwyn. Mae yna berygl o orfod di-swyddo staff eleni (petai rifau'n astudio pwnc / pynciau'n gostwng dros dro) ac angen ail-gyflogi mewn blwyddyn neu ddwy ac, yn y broses, colli staff profiadol a thalu tâl di-swyddo. Nid yw hyn yn ddefnydd effeithiol o arian nac o adnoddau.

5. Derbyniwyd gwybodaeth ar ddiwedd Ionawr 2009 y byddai addasiad i'r SGAG /NPFS ar gyfer 2009-10 - heb ymgynghoriad na rhybudd. Nid oedd, felly, cyfle i sefydliadau gynllunio ar gyfer unrhyw ostyngiad (neu ychwanegiad) at eu cyllideb.

6. Weithiau mae arian yn dod i'r Rhwydweithiau 14-19 heb rybudd a dim digon o amser i gynllunio sut i'w wario'n ddoeth. Nid oes hawl cadw'r arian wrth gefn tan fod modd ei ddefnyddio'n fwy pwrpasol oherwydd bod dyddiad cau penodol. (Mae'n ymddangos bod hyn wedi gwella'n ddiweddar).

7. Does neb wedi mynd i'r afael eto gyda'r cyswllt rhwng Bl10-11 a Bl12 -13 o ran ariannu, e.e. beth yn union ydy rôl yr AALl cyhyd ag y bod ariannu ysgol sydd â disgyblion ôl-16? Gan fod yr arian i fod i ddilyn y disgybl ai dim ond rhyw fath o system basport, haen o fiwrocratiaeth ddiangen sydd yma?

8. Gyda'r pwyslais mwy mwy ar weithio ar y cyd mae angen hyfforddiant ar gaffael a phwrcasi ar y cyd a, hefyd, hyfforddiant a chefnogaeth ar baratoi cytundebau cyfreithiol wrth i ysgolion brynu gwasanaethau wrth sefydliadau / darparwyr eraill. Nid oes pob AALl yn cynnig cymorth o'r fath. Byddai'r math yma o hyfforddiant yn helpu torri lawr ar gostau a gwario diangen ac yn fuddsoddiad ar gyfer y dyfodol.

9. Ar hyn o bryd ariennir Bl12/13 ar sail y gweithgareddau sydd yn digwydd. Os bydd ysgol yn llwyddiannus iawn yn cyflwyno Sgiliau Allweddol (Hanfodol) i ddisgyblion Bl10-11 a bod myfyrwyr yn llwyddo a ydy hyn yn golygu bydd ysgol sydd ar hyn o bryd yn derbyn arian ar gyfer y gwaith yma gyda Bl12-13 yn colli'n ariannol? Byddai hyn yn golygu bod ysgolion sydd wedi cyflwyno hyn yn llai effeithiol yn cael mwy o fantais yn ariannol! Nid yw hyn yn ymddangos yn ddefnydd effeithiol ac effeithlon o arian y cyhoedd - sef talu sefydliad i fod yn llai effeithiol.

3. Grantiau

1. Mae UCAC yn croesawu argymhelliad gan Bwyllgor Menter a Dysgu Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael a'r system grantiau sydd mor fiwrocrataidd ag sydd yn cymhlethu system ariannu ein hysgolion.

2. Mae yna ofid, serch hynny, pan fydd y grant ôl-16 ar gyfer gweithio ar y cyd yn dod i ben yn 2013, bydd rhaid dod o hyd i'r arian ychwanegol sydd angen ar gyfer cyd-weithio o arian prif lif ôl-16. Mae Swyddogion Adran Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyn - Dirprwy Weinidog dros Sgiliau wedi awgrymu eu bod o'r farn bod cyd-weithio'n gallu bod yn gost niwtral neu o leiaf byddai costau ar y cychwyn a bod y rheini'n diflannu ar ôl sefydlu'r patrwm gwaith. Nid yw UCAC yn cytuno gyda'r dehongliad hwn. Credwn fod angen mwy o ymchwil gan Adran Addysg Llywodraeth

Cynulliad Cymru i wir gostau'r agenda cyd-weithio fel bod modd ariannu datblygiadau ôl-16 mewn ffordd realistig a theg. Yn barod mae rhai sefydliadau yn edrych ar gwtogi ar y nifer cyrsiau a ddarperir oherwydd problemau ariannol.

4. Sut y bydd darpariaeth y gyllideb yn effeithio ar raglenni a chyrsiau penodol?

4.1 *Ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach – yr agenda cyd-weithio*

1. Mae gan UCAC bryderon difrifol nad yw'r cyllid ar gyfer addysg ol-16 yn ddigonol i sicrhau bod modd i sefydliadau ddarparu gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau. Mae ein haelodau'n gweld cynnydd mewn costau i'w sefydliadau a chynnydd hefyd mewn costau cudd. Honnir bod darparu ar y cyd yn ddull mwy effeithiol ond ydy e'n fwy effeithiol os mae'n erydu amodau gwaith statudol unigolion ac yn ychwanegu at gostau cudd, e.e. costau mynychu cyfarfodydd, costau trafnidiaeth, costau diswyddiadau a diweithdra?

2. Cred UCAC nad yw Adran Addysg Llywodraeth Cymru wedi casglu digon o dystiolaeth o wir gostau'r agenda cyd-weithio (14-19); mae'n debyg bod y dystiolaeth sydd ganddynt ar hyn o bryd yn "anecdotal" a does dim digon ohono. Cred UCAC nid yw hyn yn dderbyniol wrth gynllunio newidiadau ysgubol i ddarpariaeth addysg a phan mae safon addysg disgyblion Cymru a swyddi athrawon a darlithwyr Cymru yn dibynnu ar ariannu'r gwasanaeth addysg yn deg ac yn ddigonol.

3. Yn ogystal â phryderon am broblemau ariannol oherwydd llai o setliad ariannol eleni yn sgil y dirwasgiad, mae UCAC yn bryderus bod disgwyl i ysgolion a cholegau gyflawni mwy nawr gyda llai o gyllid. Nid mater ydyw o geisio cyflawni run faint a'r llynedd neu'r flwyddyn cynt, e.e. mae disgwyl cyflawni holl ofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau (14-19); bydd angen gweithredu gofynion y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg; mae angen sicrhau bod Bagloriaeth Cymru a Sgiliau Allweddol / Hanfodol yn cael tegwch; mae angen rhoi cyfle i staff ail-hyfforddi er mwyn newid cyfeiriad i ddarparu cwrs / cyrsiau newydd neu er mwyn achub swyddi. A hyn oll ar adeg pan mae popeth yn fwy o gost, e.e. costau arholiadau allanol; costau cyrsiau HMS; pris adnoddau; costau cyflenwi ar adeg pan mae ysgolion yn gorfod cyflwyno'r gofynion o Brin Gyflenwi. Mae hefyd ar adeg pan mae rhai ffynonellau arian yn dod i ben neu wedi dod i ben, e.e. arian DPP a weinyddwyd gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (toriad

£2m, gyda'r £0.9m sydd ar ôl ar gyfer prosiectau sydd wedi cychwyn yn barod; £7m o doriad yn y Gronfa Ysgolion Gwell); arian i gefnogi chweched dosbarth bach mewn ysgolion).

4.2 *Addysg Cyfrwng Cymraeg*

1. Mae'n hanfodol bwysig bod y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn derbyn digon o gefnogaeth ariannol, er mwyn sicrhau bod modd i sefydliadau ac AALl weithredu'r argymhellion yn llawn. Mae hyn yn wir ar draws y sectorau addysg. Mae £1.75m yn ymddangso yn swm bach o'i gymharu ag arian ar gyfer prosiectau eraill.

2. Mae angen cofio'r cymhlethdodau ynghlwm wrth ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac mewn sefydliadau dwyieithog megis ysgolion dwy ffrwd. Nid oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y mwyafrif o'r colegau addysg bellach (ac nid oes un coleg cyfrwng Cymraeg yn bodoli) felly, i'r mwyafrif o ysgolion sydd yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg neu cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn ysgol dwyieithog nid yw gweithio mewn partneriaeth gyda'r coleg agosaf yn opsiwn. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn aml wedi sefydlu partneriaethau gyda'i gilydd ac yn cyd-weithio'n effeithiol. Weithiau mae hyn yn fwy costus oherwydd ffactorau megis pellteroedd - costau teithio, ac ati. Hefyd, o ran rhai cyrsiau galwedigaethol mae'r ysgolion yn gorfod prynu'r gwasanaeth wrth ddarparwr arall (darparwr preifat) - gall hyn fod yn ddrud. Mae ysgolion dwyieithog hefyd yn ei chael yn anodd ffeindio partneriaid i gyd-weithio i ddarparu'r cyrsiau cyfrwng Cymraeg. Mae'r sefyllfa'n cael ei gymhlethu mewn rhai ardaloedd oherwydd ffactorau daearyddol. Credwn bod angen i Adran Addysg Llywodraeth y Cynulliad baratoi canllawiau / cyngor i sefydliadau am faterion megis caffael a phwrcasi, paratoi cytundebau, tendro, prisiau addas, ac ati. Rhaid cofio mai pwrpas busnes preifat yw gwneud elw - ac mae rhai byddai'n fodlon cymryd mantais o ddiffyg profiad neu ddiffyg gwybodaeth ysgolion yn y meysydd hyn.

3. Mae'r trefniadau ariannu yn her i ddarparu cyrsiau ôl-16 cyfrwng Cymraeg mewn ysgol dwy ffrwd (ffrwd Gymraeg a ffrwd Saesneg). Nid oes cydnabyddiaeth o ran credydau ar gyfer y cyrsiau cyfrwng Cymraeg a'r cyrsiau cyfrwng Saesneg ar wahan, e.e. nid yw History a Hanes yn cael eu cydnabod fel dau opsiwn, felly un credyd sydd ar eu cyfer – ond mae angen darparu dau gwrs. Mae'r sefyllfa yn her fawr i ddarpariaeth cyrsiau Cymraeg mewn sefydliad dwyieithog – ac mewn gwirionedd yn fygythiad i ddyfodol darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion dwyieithog .

4. Mae lle i ysgolion a cholegau yn system addysg Cymru. Ac mae ysgolion yn hanfodol bwysig o ran darparu addysg ol-16 cyfrwng Cymraeg. Wrth ystyried materion ariannu addysg ol-16 mae'n rhaid ystyried yr heriau sydd gan ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion mewn ardaloedd gwledig - oherwydd materion megis diffyg darparwyr cyfagos i gyd-weithio gyda hwy a diffyg darparwyr sydd yn medru darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

5. Rhaid sicrhau ariannu teg a digonol hefyd ar gyfer y Coleg Ffederal. Mae'n hanfodol bwysig bod y cynlluniau ar gyfer y Coleg Ffederal yn cael tegwch ac yn cael eu gweithredu'n brydlon. Mae'r dilyniant ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn holl bwysig. Rhaid hefyd diogelu addysg cyfrwng Cymraeg wrth i'r agenda trawsnewid ddatblygu. Ni ddylai dadleuon bod darparu canolfan "dwyieithog" yn rhatach ac felly'n fwy effeithiol ac effeithlon na darparu addysg ôl-16 mewn ysgolion fod yn berthnasol o gwbl o ran addysg cyfrwng Cymraeg. Ni fydd canolfannau dwyieithog yn darparu addysg gyflawn cyfrwng Cymraeg - felly ni fydd yn darparu gwerth gorau ar gyfer disgyblion sydd yn dymuno derbyn addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg.

4.3 *Ardaloedd gwledig*

Mae angen bod yn ymwybodol o'r cymhlethdodau mewn ardaloedd gwledig hefyd, e.e. diffyg partneriaid a darparwyr addas, costau ychwanegol o ran trafnidiaeth, ac ati. Mae'n wir fod chweched dosbarth ysgolion mewn ardaloedd gwledig yn aml yn fach, ond gall cynnal y chweched dosbarth fod yn ffordd fwy effeithiol o wario arian (ac yn darparu addysg fwy effeithiol i'r disgyblion) na dileu'r chweched dosbarth a darparu trafnidiaeth i'r myfyrwyr i safleoedd ar bellter).

Argymhellion

1. Mae angen mwy o arian ar gyfer addysg ôl-16 ac angen ail-edrych ar y SGAG / NPFS a gwerth y UCC.

2. Mae angen edrych ar y costau ychwanegol o ddarparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn sefydliad dwyieithog a sefydliadau cyfrwng Cymraeg.

3. Mae angen ceisio sicrhau bod ysgolion a cholegau'n derbyn gwybodaeth yn gynt am yr arian sydd yn debygol o ddod i'w rhan yn ystod y flwyddyn ganlynol a sicrhau bod penaethiaiad sefydliadau'n cael mwy o gyfleoedd i roi mewnbwn i drafodaethau am ariannu ôl-16 a'r SGAG /NPFS.

4. Dylai Adran Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru gasglu gwybodaeth pendant am gostau cyd-weithio.

5. Mae angen torri lawr ar gostau biwrocrataidd cyd-weithio.

6. Dylid paratoi cyngor (athrefnu hyfforddiant) am gaffael a phwrcasi ar y cyd a, hefyd, hyfforddiant a chefnogaeth ar baratoi cytundebau cyfreithiol wrth i ysgolion brynu gwasanaethau wrth sefydliadau / darparwyr eraill.

7. Mae angen cefnogaeth arbenigol ar ysgolion mewn ardaloedd gwledig a rhai sydd ag anghenion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog oherwydd yr heriau o ran cyd-weithio (ym mhob ardal o Gymru sydd yn cael ei heffeithio).

(Gweler yr atodiad)

Atodiad

Ysgol 1

Wedi bod yn gwneud cynilion arbedion dros o leiaf tair blynedd - wedi rhedeg yr ysgol mor dynn â phosib. Braidd yn ymdopi i ddarparu'r cwricwlwm ar hyn o bryd. Os bydd angen arbedion pellach (5%) bydd rhaid dileu pynciau o'r grwpiau opsiwn a ni fydd yr ysgol yn cyflawni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau - ond mae'r gofynion yn statudol. Beth, felly, bydd yn digwydd?

Teimlo bod darparwyr allanol sy'n gallu darparu cyrsiau galwedigaethol yn y Gymraeg yn cymryd mantais (neu'n gorfod codi mwy o arian) oherwydd y trafferthion ar adeg o ddirwasgiad. Mewn rhai ardaloedd yn arbennig does dim dewis o ran darparwyr allanol.

Ysgol 2

Petai'r ysgol yn derbyn yr un math o setliad eleni a llynedd byddai sefyllfa'r ysgol yn amhosibl.

Bydd y cwbl yn dibynnu eleni ar werth y UCC / CEU. Os bydd hyn yn cael ei leihau bydd yn creu problemau mawr i'r ysgol. Mae'r ysgol yn gwybod bod ganddi 25,000 o gredydau oherwydd natur y gweithgareddau addysgu ond does neb yn gwybod eto beth fydd gwerth y rhain. Bydd y gwerth yn allweddol. Roedd y pennaeth ar ddeall bod y penderfyniad wedi'i ohirio cyn Nadolig er mwyn asesu'r holl ddata.

Mae Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bendant wedi mynd i drafferth eleni i wella system dehongli data. Serch hynny cred y pennaeth ei fod yn broblem mai'r AALl sydd yn cael eu hariannu nid yr ysgolion - os nad yw'r wybodaeth yn llifo trwyddo i'r ysgolion mewn da bryd mae'n creu problemau ychwanegol o ran cynllunio.

Roedd y cywiriad daeth llynedd (sef y 7.43% o dalu nôl) yn seiliedig ar ddarparwyr coleg ac AALl - ni dderbyniodd pob ysgol yn y Sir oedd a chweched dosbarth ad-daliad.

Ysgol 3 (ysgol ddwyieithog - dwy ffrwd)

Mae'r ysgol yn darparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg a chyrsiau cyfrwng Saesneg ô-16. Mae'n ysgol dwy ffrwd sydd fel petai'n ddwy ysgol ar un safle. Petai'r ysgol yn darparu addysg uniaith Gymraeg neu uniaith Saesneg byddai'r sefyllfa'n wahanol. Mae'r ysgol yn cael her i gyrraedd gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau.

Nid oes cydnabyddiaeth o ran credydau am yr un pwnc yn y ddwy iaith, e.e. Hanes / History, ond mae angen darparu athrawon, adnoddau addysgu, amser ar yr amserlen, ac ati ar gyfer darparu'r ddau ar wahân. Mae rhai o'r dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg yn fach ond nid oes modd cyd-weithio gydag ysgol arall oherwydd natur ieithyddol a daearyddol yr ardal. Nid yw'r Coleg agosaf yn darparu o gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae modd darparu cyrsiau cyfrwng Saesneg ar y cyd. Mae'r pennaeth yn gweld bod her fawr i'r ysgol barhau i ddarparu ac ehangu cyrsiau cyfrwng Cymraeg oherwydd y sefyllfa ariannol ac mae pryder mawr am addysg alwedigaethol cyfrwng Cymraeg. Petai addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16 yn cael ei ganoli mewn sefydliad mawr dwyieithog fel Coleg yn y Sir byddai'n cael ei foddi. Mae'r pennaeth yn gofidio am ddyfodol cyrsiau cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog wrth ystyried y sefyllfa ariannol. Mae angen arian ychwanegol i allu sefyll yn llonydd heblaw am ddatblygu.

Os bydd y setliad eleni'n debyg i'r llynedd fe fydd yn anodd cyrraedd targedau'r Mesur Dysgu a Sgiliau o ran niferoedd pynciau.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r ysgol wedi osgoi diswyddiadau gorfodol oherwydd bod rhai aelodau o staff wedi ymddeol a bod un aelod o staff ar gytundeb blwyddyn. Nid yw'r ysgol wedi llenwi'r swyddi hyn - ac mae'r ysgol yn barod, felly, yn gweithredu ar isafswm posib o staff.

Mae'r ysgol wedi manteisio'n llawn ar y dechnoleg newydd, e.e. fideo-gynadledda.

Maent hefyd wedi gwneud pob math o doriadau eraill oherwydd cyllid, e.e. gwasanaeth Cerdd, arian ar gyfer adeiladau. Meant wedi torri at yr asgwrn yn barod a bydd unrhyw ddisgwyl i dorri ymhellach neu i ddatblygu gyda'r un swm o arian yn creu problemau ac yn arwain at ddiswyddiadau gorfodol a methiant i ddarparu gofynion newydd ôl-16.

Costau darpariaeth allanol

e.e. Cwrs arweinyddiaeth chwaraeon

- 1 diwrnod tiwtorial, 3 diwrnod lleoliad gwaith (ysgol fel rheol gorfod ffeindio hyn) 1 diwrnod nôl yn ysgol.
- Darparu'r cwrs mewn 3 ysgol - 1 diwrnod yr wythnos ym mhob ysgol. Mae'n gwrs llwyddiannus a gwerthfawr iawn ac mae'r ysgolion wedi denu nôl i'r system addysg disgyblion byddai erbyn hyn o bosib yn NEETs.

- Does dim problem wedi bod gydag ansawdd y cwrs ond mae'r costau'n uchel - ar draul ysgolion cyfrwng Cymraeg gan amlaf, gan fod colegau addysg bellach yn aml yn gallu darparu'r cwrs yn Saesneg.

- £16,000 i bob ysgol, sef cyfanswm o £48,000 (cofier mai'r ysgol sydd yn gyfrifol am drefnu 4 diwrnod yr wythnos o weithgareddau'r disgybl, a'r darparwr yn gyfrifol am un diwrnod yr wythnos).

  e.e. Cwrs gofal plant:

- 1-2 diwrnod tiwtorial + profiad gwaith (30 awr tiwtorial dros bythefnos a hefyd yn cael profiad gwaith fel rhan o'r cwrs).

- 5 disgybl cyntaf £13,800; ffi pob disgybl arall tua £800 y pen; cost 1 blwyddyn tua £25,000 gyda 5-7 disgybl ym mhob ysgol (18-20 o blant mewn 3 ysgol).

- Gwerthfawr iawn ac wedi denu nôl i system addysg rhai fyddai wedi gadael.

- Byddai costau darparu trwy goleg yn debyg ond er bod y coleg agosaf yn dweud ei fod yn gallu darparu'r cwrs yn Gymraeg mewn gwirionedd beth oedd ar gael oedd: deunyddiau Saesneg, asesu cyfrwng Cymraeg a nodiadau cyfrwng Saesneg a thiwtor sydd yn gallu siarad Cymraeg ond dim sicrwydd y byddai unrhyw wersi trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2009 roedd y coleg yn codi £52 am bob gwers o awr – dyma'i ffi arferol nawr. Byddai costau eraill ar ben hyn..

UCAC
Prif Swyddfa UCAC
Ffordd Penglais
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 2EU

01970 639950

ucac@athrawon.com
www.athrawon.com